Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Creuddyn
# Ffordd Dderwen
# Bae Penrhyn
# Llandudno
# LL30 3LB

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun ddynodedig Gymraeg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol y Creuddyn. a gynhelir gan awdurdod lleol Conwy.  Mae nifer y disgyblion wedi codi ychydig ers yr arolygiad diwethaf, gyda 679 o ddisgyblion yn cynnwys 92 yn y chweched dosbarth yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Lleolir yr ysgol ar gyrion tref lan y môr Llandudno.  Daw'r disgyblion o ardal eang arfordirol a gwledig sir Conwy.  Mae 8% o'r disgyblion wedi'u cofrestru i fod â hawl i brydau ysgol am ddim sydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.1%.  Mae 11% o'r disgyblion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn.  Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.  Mae 1% o ddisgyblion yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig.  Mae 1.1% o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig sydd yn is na'r cyfataledd cenedlaethol.  Datgymhwyswyd chwech o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, o ofynion llawn y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Yn ogystal, mae 62 o ddisgyblion (10%) ar gamau 'gweithredu ysgol a mwy'.  Daw 17% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith.  Yn flynyddol, mae tua 20% o ffrwd Blwyddyn 7 yn ymuno â'r ysgol trwy'r cynllun trochi.  Mae'r disgyblion sydd wedi derbyn addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn cael cymorth dwys gyda'r Gymraeg ac yna'n ymuno â phrif ffrwd yr ysgol, fel arfer ym Mlwyddyn 7 neu Flwyddyn 8.

Dechreuodd y pennaeth presennol ar ei swydd ym mis Ionawr 2004, a'r dirprwy bennaeth ym Medi 2010.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Creuddyn yw £4457 sy'n cymharu gydag uchafswm o £4649 ac isafswm o £3884 ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghonwy.  Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl ail uchaf o'r saith ysgol uwchradd yng Nghonwy.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- mae bron pob disgybl yn hapus yn yr ysgol a'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn gyson dda; a
- caiff iechyd a lles y disgyblion eu hyrwyddo'n dda iawn.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r ysgol yn adnabod a blaenoriaethu yn effeithiol y meysydd i'w gwella;
- mae arweinwyr ar bob lefel yn deall eu rôl a chyfrifoldebau ac yn cyfleu disgwyliadau uchel; a
- gwelwyd tuedd o gynnydd ym mherfformiad yr ysgol a phresenoldeb disgyblion yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Argymhellion

I sicrhau gwelliant, dylai staff a llywodraethwyr Ysgol y Creuddyn:

A1 Codi safonau yn enwedig yn y dangosydd pynciau craidd a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4;

A2 Lleihau'r bwlch rhwng cyflawniadau bechgyn a merched;

A3 Rhannu'r arferion gorau yn ansawdd yr addysgu;

A4 Cryfhau cyfraniad rhieni a disgyblion i brosesau hunan arfarnu'r ysgol; a

A5 Ymestyn a chryfhau'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth trwy gydweithio'n agosach gydag ysgolion eraill a'r coleg lleol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 3 ar gyfer lleiafrif o ddangosyddion mae canlyniadau uwchlaw ffigyrau Cymru ac yn uwch na chyfartaledd y teulu. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r canlyniadau yn erbyn y prif ddangosyddion uwchlaw ffigyrau cyfartalog Cymru ac fel arfer yn uwch na chyfartaledd y teulu. Bu patrwm clir o welliant dros y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r dangosydd pynciau craidd (y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) wedi codi'n gyson dros y tair blynedd diwethaf ac yn 2010 yn agos at gyfartaledd y teulu ac yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Eleni mae perfformiad yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 yn parhau i gryfhau a nawr ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Yn 2010, roedd perfformiad mewn Saesneg a mathemateg ychydig yn is na chyfartaledd y teulu ac ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Eleni mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu ond ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn y Gymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd y teulu ond mae perfformiad ym mathemateg ychydig yn is.

Yn 2010 ac yn 2009, yng nghyfnod allweddol 4, roedd canlyniadau'r trothwy lefel 2 (yr hyn sy'n cyfateb i ennill pump neu fwy o raddau A*-C TGAU neu gymwysterau cyfatebol) yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg dros 10% yn uwch na chyfartaledd y teulu. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi bod ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefel prydau ysgol am ddim. Roedd canlyniadau 2010 ar gyfer y trothwy lefel 2 a'r dangosydd pynciau craidd yn gosod yr ysgol yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim ond mae'r perfformiad ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae'r trothwy lefel 1 (yr hyn sy'n cyfateb i ennill pump neu fwy o raddau D-G TGAU neu gymwysterau cyfatebol) yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru ac wedi bod ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefel prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r sgor bwyntiau cyfartalog (sy'n cwmpasu holl gymwysterau a gymeradwywyd yn allanol yn 16) wedi cynyddu ar raddfa arafach na'r teulu a Chymru ac mae'r ysgol yn y chwarter isaf eleni am y tro cyntaf.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn gyffredinol ar sail eu cyflawniadau blaenorol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyflawniadau'r merched mewn Saesneg yn well na'r bechgyn ac mae'r gwahaniaeth yn uwch na chyfartaleddau Cymru a'r teulu. Yn y pynciau craidd eraill does dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniadau

bechgyn a merched. Yng nghyfnod allweddol 4, ar gyfer nifer o ddangosyddion, mae cyflawniad bechgyn yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Mae eu cyflawniad yn sylweddol is na'r merched yn y trothwy lefel 2 a'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Mae grwpiau eraill o ddisgyblion, yn cynnwys disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd priodol.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, does dim un disgybl wedi gadael yr ysgol heb o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig ac mae bron pob un yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn y chweched dosbarth mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 (sydd yn gyfwerth â dwy Safon Uwch ar raddau A*-E) yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r awdurdod lleol. Ar gyfer y sgor bwyntiau cyfartalog ehangach (sy'n cwmpasu holl gymwysterau a gymeradwywyd yn allanol yn 18), mae perfformiad disgyblion sylweddol yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt mewn gwersi blaenorol wrth ddatblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth newydd yn effeithiol. Mewn llawer o'r gwersi, mae disgyblion yn dangos cymhelliant, ac yn gweithio'n fedrus mewn grwpiau bach neu barau. Mewn ychydig iawn o wersi lle nad oes yna ddigon o her, mae cynnydd y disgyblion yn annigonol.

Mae gan disgyblion afael gadarn ar fedrau siarad, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio geirfa bynciol yn gywir ac yn cynnig atebion estynedig ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae bron pob disgybl yn darllen yn dda yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn trawsieithu'n rhwydd ac yn rhugl. Mewn llawer o'r pynciau, mae disgyblion yn ysgrifennu'n dda i ystod o wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd. Gwna'r disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol trwy'r cwrs trochi gynnydd rhagorol yn eu darllen, ysgrifennu a gwaith llafar.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda ac mae disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio meddalwedd a rhaglenni cyfrifiadurol cyfoes. Mae pob disgybl yn y chweched dosbarth yn dilyn cwrs Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch ac mae pawb wedi ennill achrediad o leiaf un sgil hanfodol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau corfforol sy'n cael eu cynnal gan y clwb 5 x 60. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a bywyd iach, gyda'r clwb 'Bwyd o Bwys' yn hyrwyddo'r neges yma'n effeithiol iawn.

Mae gan y disgyblion agweddau positif iawn tuag at eu gwaith. Maent yn cyrraedd eu gwersi'n brydlon a'r rhan fwyaf yn ymdrechu'n galed ynddynt. Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf a nawr ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau cinio am ddim. Ceir ymddygiad da iawn ym mhob man yn yr ysgol. Nid oes unrhyw waharddiad parhaol yn ystod y tair blynedd diwethaf ac mae cyfraddau gwaharddiad dros dro yn isel iawn.

Mae pob blwyddyn mae’r ysgol yn cyfrannu at waith elusennol ond dim ond y chweched dosbarth sy’n cael cyfle i weithio’n agos â’r gymuned leol trwy Fagloriaeth Cymru.

Ceir sawl fforwm sy’n rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau o fewn yr ysgol.  Mae rôl ac effeithiolrwydd cyngor yr ysgol yn datblygu a chaiff ddisgyblion gyfrannu at apwyntiadau staff newydd.  Er eu bod yn mynegi barn ar ystod o faterion, nid ydynt eto yn dylanwadu ar sut a beth maent yn ei ddysgu.  Yn ddiweddar, mae cysylltiadau’n dechrau cryfhau rhwng y llywodraethwyr a’r disgyblion, gyda swyddog o’r chweched dosbarth yn mynychu cyfarfodydd y llywodraethwyr.

Mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn ysgwyddo cyfrifoldebau swyddogion i hybu’r iaith Gymraeg, hyrwyddo ymddygiad da ac wedi sefydlu’r cynllun ‘Bydis’.

Mae’r disgyblion yn trin ei gilydd a staff â pharch ac yn dangos goddefiant i safbwyntiau gwahanol.  Maent yn gwrtais a chroesawgar i ymwelwyr â’r ysgol.  Mae’r disgyblion yn caffael y medrau i’w paratoi ar gyfer bywyd tu hwnt i’r ysgol neu’r cam nesaf o’u dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn gyffredinol yn cwrdd â’r gofynion statudol ac mae’n sicrhau profiadau gwerthfawr sy’n adeiladu’n effeithiol ar ddysgu blaenorol.  Ehangwyd y dewis o gyrsiau traddodiadol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a’r chweched dosbarth ers 2008.  Mae hyn wedi sicrhau profiadau mwy amrywiol ac addas i ddysgwyr unigol.  Mae’r ysgol yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch i holl ddisgyblion y chweched dosbarth.

Sicrheir profiadau allgyrsiol eang, amrywiol a buddiol i’r dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol ac mae hyn yn cyfoethogi’r dysgu.

Cynllunnir cyfleoedd priodol a manwl mewn llawer o’r gwersi er mwyn i’r disgyblion ddatblygu eu medrau mewn llythrennedd a chyfathrebu.  Mae’r gwaith o hyrwyddo medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm yn datblygu’n raddol.  Darperir cyfleoedd priodol i’r disgyblion hynny sydd angen cefnogaeth bellach gyda llythrennedd a rhifedd.  O ganlyniad, mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da.  Mae rhan fwyaf o adrannau’r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol ac addas i ddatblygu medrau meddwl disgyblion.

Defnyddia’r ysgol y Gymraeg yn brif gyfrwng addysgu.  Mae llwyddiant y cynllun trochi yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf a dilynant oll y llwybr mamiaith.  Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu a hyrwyddo’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig yn gynhwysfawr iawn.

Nodwedd dda o fywyd yr ysgol yw'r amrediad eang ac amrywiol o gyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr gyfranogi yng nghymuned yr ysgol.  Caiff datblygiad cynaliadwy a

dinasyddiaeth fyd-eang eu hyrwyddo'n llwyddiannus trwy nifer o weithgareddau a gwasanaethau boreol sy’n hybu ymwybyddiaeth ac empathi.

**Addysgu: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o’r athrawon wybodaeth drylwyr a pherthnasol am y pynciau maent yn eu haddysgu ac maent yn cynllunio’n fanwl. Mae ansawdd yr addysgu yn uchel ac mae’r perthnasau cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion yn cyfrannu’n effeithiol tuag at gynnydd disgyblion. Mae rhan fwyaf o’r gwersi wedi eu strwythuro yn dda a gwneir defnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu ac amrywiaeth o adnoddau sy’n cwrdd ag anghenion y disgyblion.

Mae rhan fwyaf o’r athrawon yn rhannu meini prawf llwyddiant a nodau ac amcanion gyda’r disgyblion ar gychwyn y wers. Maent yn dangos sensitifrwydd wrth siarad gyda’r disgyblion am ansawdd eu gwaith ac yn cynnig adborth defnyddiol ar lafar yn ystod y gwersi. Mae llawer o’r athrawon yn gofyn cwestiynau agored i annog disgyblion i resymu ac ymhelaethu ar eu cyfraniadau llafar.

Mae rhan fwyaf o waith y disgyblion yn cael ei farcio’n gyson, gyda’r mwyafrif o athrawon yn nodi targedau a sylwadau penodol ac adeiladol ar sut i wella. Mewn lleiafrif o’r llyfrau mae enghreifftiau o hunanasesu ac asesu cymheiriaid ond mae hyn yn anghyson ar draws adrannau. Yn gyffredinol, mae asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn cwrdd â’r gofynion statudol. Er hynny, mae dehongliad athrawon o feini prawf y lefelau yn anghyson mewn ychydig iawn o’r adrannau.

Mae system effeithiol i adrannau gofnodi a dilyn cynnydd disgyblion ar draws pob cyfnod allweddol. Mae disgwyliad hefyd iddynt ddadansoddi data asesiadau a chanlyniadau arholiadau yn drwyadl. Fodd bynnag, nid yw pob adran yn defnyddio’r wybodaeth yma yn ddigon da i wella safonau. Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn adroddiadau manwl a gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant, er bod peth anghysondeb.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn ofalgar ac yn cynnig cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles ei disgyblion yn dda. Cydlynir yr agweddau hyn gan raglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr a manwl. Rhoddir sylw addas i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Caiff disgyblion gyfleoedd amrywiol i drafod materion cyfoes sy’n berthnasol i’w bywydau bod dydd. Mae’r grŵp ‘bwyd o bwys’ yn weithgar a brwdfrydig ac yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth disgyblion eraill o rinweddau bwyta’n iach.

Mae’r trefniadau ar gyfer adnabod anghenion addysgol a phersonol disgyblion yn effeithiol. Mae’r tîm bugeiliol yn gwneud defnydd da o system dracio manwl i fonitro cynnydd ac ymddygiad y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a chyflawniad disgyblion. Gwneir defnydd priodol o gymorth gwasanaethau allanol, yn cynnwys y gwasanaeth lles addysg, meddyg a Gyrfa Cymru.

Derbynia dysgwyr ag anghenion ychwanegol ystod eang o brofiadau dysgu a chyfleoedd addas i ennill cymwysterau priodol. Mae tîm o gymorthyddion yn rhoi cefnogaeth effeithiol o fewn gwersi. Mae anogwyr dysgu yn darparu cyngor a threfnu gweithgareddau sy'n hybu hunanhyder disgyblion bregus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisïau addas ar gyfer diogelu plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae gan bob disgybl gyfleoedd cyfartal o ran y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol. Mae gan yr ysgol bolisiau a gweithdrefnau priodol i ymateb i achosion hiliol pe bai angen.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn ddigonol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm i'r niferoedd presennol. Mae amgylchedd ysgogol a chadarnhaol ar gyfer dysgu. Serch hyn, cyfyng yw'r dosbarthiadau, y coridorau a'r ystafelloedd cyffredinol sydd yn yr hen adeilad, megis ystafell gymdeithasol ac astudio'r chweched dosbarth a'r ffreutur.

Mae arddangosfeydd diddorol o waith y disgyblion mewn dylunio a thechnoleg a chelf. Mae digon o adnoddau ar gyfer dysgu yn gyffredinol, gydag adnoddau da iawn mewn meysydd megis technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r ganolfan hamdden ar gyfer chwaraeon. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ac aelodau'r uwch dîm arwain weledigaeth glir a phriodol ar gyfer yr ysgol. Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr uwch dîm arwain, penaethiaid adran a phenaethiaid blwyddyn yn trosglwyddo'r weledigaeth yn effeithiol. Mae'r cyfarfodydd â phenaethiaid adran yn ffocysu'n gyson ar agweddau i'w gwella a'r agenda gwelliant. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr yn cyflawni eu rôl yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at wella safonau a darpariaeth yr ysgol. Mae gofynion rheoli perfformiad yn cael eu gweithredu'n briodol, ac mae'r staff addysgu a'r staff ategol yn cael cyfle i drafod eu gwaith a phennu targedau perthnasol.

Mae gan yr uwch dîm arwain ddarlun clir o gryfderau'r ysgol ac ymwybyddiaeth dda o'r meysydd i'w datblygu. Mae'r pennaeth yn defnyddio data yn effeithiol i fonitro perfformiad, adnabod tangyflawni a gosod strategaethau pwrpasol yn eu lle i godi safonau. Mae strategaethau priodol i gau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched ar waith ond ar hyn o bryd mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar gyflawniadau bechgyn.

Ceir corff llywodraethol sy'n gefnogol, gyda dealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth am berfformiad yr ysgol. O ganlyniad, maent yn adnabod yr ysgol yn dda. Ar y cyfan, mae 'r corff yn chwarae rôl fel ffrind beirniadol yn effeithiol ac yn cyflawni ei

ddyletswyddau statudol. Sefydlwyd cysylltiadau buddiol rhwng llywodraethwyr unigol ac adrannau.

Mae’r ysgol yn ymateb yn briodol ac yn effeithiol i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu partneriaethau gyda darparwyr eraill, datblygu ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 a sicrhau dilyniant effeithiol rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae cysylltiad amlwg a phriodol rhwng gweithdrefnau hunan-arfarnu’r ysgol a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae gan yr ysgol strwythur hunan-arfarnu trwyadl sydd wedi cael ei gynllunio ar lefel ysgol-gyfan ac adrannol. Mae gan arweinwyr ddarlun clir a dealltwriaeth gywir o’r cryfderau a’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae’r broses o hunan-arfarnu yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, yn cynnwys data allanol a mewnol a thystiolaeth o waith monitro llyfrau a gwersi. Mae’r cynllun gwella yn darparu cyfeiriad clir i weithgarwch gwella’r ysgol ac yn cynnwys targedau heriol a phriodol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Yn y rhan fwyaf o’r adrannau mae cysylltiad clir rhwng prosesau hunan-arfarnu a blaenoriaethau’r cynllun gwella. Mae bron pob adran yn rhoi sylw clir i berfformiad cymharol disgyblion fel rhan o’r broses hunan-arfarnu. Mae staff a’r llywodraethwyr yn cael mewnbwn addas i’r adroddiad hunan-arfarnu, ond mae llais disgyblion a rhieni neu ofalwyr yn llai amlwg.

Mae arsylwi gwersi yn datblygu fel nodwedd gyson o hunan-arfarnu gan y penaethiaid adran. Mae cyfleoedd i athrawon o fewn adrannau ymweld â gwersi eraill fel rhan o’u datblygiad proffesiynol. Caiff athrawon gyfleoedd buddiol i fynychu cyrsiau hyfforddiant mewn swydd ac mae trefniadau cynhwysfawr yn eu lle i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae’r ysgol yn elwa o’i haelodaeth o rwydweithiau proffesiynol allanol ac o weithgorau mewnol. Mae ymglymiad yr ysgol mewn amrywiol rwydweithiau, megis grŵp 14-19 yr awdurdod lleol, wedi adeiladu cynhwysedd ar gyfer gwelliant parhaus. Mae’r grwpiau mewnol sy’n ffocysu ar addysgu a dysgu a Chymreictod yn barod wedi cael effaith ar godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid. Mae’r bartneriaeth gyda choleg lleol yn cyfrannu’n dda at ehangu’r ystod o bynciau sy’n cael eu cynnig yng nghyfnod allweddol 4 a chyfoethogi profiadau nifer cynyddol o ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas bositif gyda rhieni. Mae presenoldeb yn uchel mewn nosweithiau rhieni a chefnogaeth frwdfrydig gan rieni i weithgareddau amrywiol yr ysgol. Mae’r ysgol wedi mynd ati i ddatblygu ei gwefan er mwyn gwella cyfathrebu a darparu gwybodaeth yn fwy effeithiol i rieni.

Mae partneriaethau buddiol gyda'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol. Mae trefniadau bugeiliol a chwricwlaidd yn galluogi disgyblion i ymgartrefu'n gyflym ym mlwyddyn 7. O ganlyniad i'r cynllun trochi, mae partneriaethau gydag ysgolion cynradd Saesneg yr ardal yn cryfhau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Rheolir yr adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn effeithiol gan sicrhau trefniadau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Caiff gwariant ei fonitro'n rheolaidd gan y pennaeth, swyddog gweinyddol a'r is-bwyllgor cyllid. Mae'r trefniadau yma yn sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer diwallu blaenoriaethau ysgol ac adrannol.

Ar y cyfan, mae safonau'r ysgol ac ansawdd yr addysgu yn cynnig gwerth da am arian. Er hynny, mae mwyafrif y dosbarthiadau yn y chweched dosbarth yn fach ac heb fod yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr**

Ymatebodd 196 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur. Mae'r sampl yma'n cynrychioli ychydig dros chwarter o holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a bod ganddynt rywun i siarad gydag os ydynt yn poeni. Teimla'r rhan fwyaf o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu dysgu am sut i gadw'n iach a bod digon o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn teimlo bod digon o offer yn yr ysgol ond mae ychydig o ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn anghytuno.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hefyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae ychydig o ddisgyblion yn teimlo nad yw'r gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn dysgu yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda, bod athrawon yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol a bod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. Mae'r mwyafrif yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn a'r rhan fwyaf yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 4 ac ychydig dros hanner yn y chweched dosbarth yn teimlo'u bod wedi derbyn cyngor da wrth ddewis cyrsiau.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniodd Estyn 142 o holiaduron gan y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol.

Dywed rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu, eu trin yn deg a'u bod yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn teimlo bod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn a'r mwyafrif yn teimlo bod yr ysgol yn paratoi'u plentyn yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. Mae ychydig o'r rhieni yn teimlo nad yw'r gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae'r disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol. Y mae lleiafrif o rieni hefyd yn datgan nad oes yna amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Catherine Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| Alun Morgan | Arolygydd Tîm |
| Ray Owen | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Brian Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Meirion Davies | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |